**Beirniadaeth Cystadleuaeth y Gadair, Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn 2026**

Cafwyd deuddeg ymgais am y gadair eleni. Un nodwedd gyffredin yn nifer o'r cerddi oedd eu bod yn rhy ryddieithol ac yn brin o fydr neu ddweud bachog. Ond er hynny, mae rhywbeth i'w ganmol yn nifer ohonynt.

Aneglur a rhy fyr ar gyfer cystadleuaeth y Gadair yw cerdd GWAS Y NEIDR, yn anffodus. Niwlog hefyd yw cerddi EIRIOLWEN ac EA-NASIR lle mae golygfeydd yn neidio o un i'r llall heb linyn cyswllt clir. Byddai'r tri yn elwa o ddarllen mwy o farddoniaeth er mwyn ystyried beth sy'n gwneud i gerdd ganu.

Mae mwy o drefn i gerddi PERERIN wrth iddo bontio degawdau o hanes y Gymraeg o brotest Pont Trefechan hyd at dranc yr iaith, ond mae angen mwy o gynildeb yma. Sôn am nain â dementia wna CILFOR; mae'n gerdd sy'n paentio darlun digon effeithiol ond rhy ryddieithol ydyw ar y cyfan. Dyma fai CEIDWAD Y GOLEUDY hefyd wrth iddo glymu profiad pobl ar draws y byd yn casglu carreg 'ambr' ar draeth. Mae'r syniad sydd yn y cerddi hyn yn uchelgeisiol a cheir fflach o farddoniaeth mewn llinell fel 'mae'r môr maith â'i law ar [b]ob cyfandir', ond mae angen rhoi sylw i gywirdeb iaith y cerddi.

Taith merch wrth iddi ddygymod â diagnosis sydd gan AWENYDD, diagnosis o ADHD o bosib wrth i'r bardd gyfeirio at 'nerth pedair llythyren fach'. Dyfalu yw hynny, fodd bynnag, ac felly mae'r cerddi ychydig yn anodd eu deall yn llawn. Mae'r bardd yn defnyddio amryw o fesurau'n llwyddiannus ac o ddarllen dros y gwaith a thynhau'r mynegiant, gallai'r gerdd godi i dir uwch. Mae GWARAC TOMOS yn fardd hyderus a'i gerdd 'Smocio' yn un o uchafbwyntiau'r gystadleuaeth hon. Anodd yw gweld y cysylltiad rhwng rhai o'r cerddi, fodd bynnag, ac felly nid yw'r cyfan yn llifo fel casgliad. Mae gan GARTH CELYN lais unigryw yn y gystadleuaeth hon wrth iddo boeri ar y diwylliant biwrocrataidd sefydliadol yng Nghaerdydd. 'Croeso i'r brifddinas,' meddai, 'lle mae'r adeiladau'n dalach / na'r addewidion y tu mewn iddynt. / Lle mae gan y colomennod well aneliad / na hanner y llunwyr polisi'. Mae gan GARTH CELYN rywbeth i'w ddweud, ond nid ar y testun 'pontio'. Hoffem annog AWENYDD, GWARAC TOMOS, a GARTH CELYN i ddal ati er mwyn datblygu eu lleisiau fel beirdd.

Mae casgliad ŴYR yn un cyflawn a'r iaith yn goeth wrth inni ddilyn teithiau tad-cu a'i ŵyr dros lwybrau lleol yng Ngheredigion. Mae clo'r casgliad hwn yn syml o drawiadol wrth i'r ŵyr sylweddoli fod llwybrau a straeon ei dad-cu yn parhau yn ei gof ei hun. Mae'n cloi fel hyn: 'Ei straeon wedi'u hau, / Ym môn pob clawdd / Ar chwâl dros y tir. / Ond yn fy mhac fe'u cesglais, / Ac af ar fy nhaith, / Un dro'd ar ôl y llall'.

Awdl sydd gan AONTACHT, ac mae'n gynganeddwr hynod o grefftus. Pontio Belfast ddoe, heddiw ac yfory mae'r gerdd. Mae'r cywydd agoriadol yn sicr yn un o ddarnau mwyaf cofiadwy'r gystadleuaeth â golygfa o gêm bêl-droed Gaeleg rhwng y ddwy ochr a fu'n ymladd yn erbyn ei gilydd. Dyma ran orau'r awdl, â llinell fel 'awr gôl, a'r ddôl sanctaidd hon / i'r mob sy'n magu'r meibion' yn ysgytwol. Cawsom yn sicr ein swyno gan ddawn y bardd, ond er mor hyderus yw'r cynganeddu, mae mân wallau yma ac acw, ac weithiau mae'r gynghanedd yn drech na'r ystyr. Rydym yn sicr y clywn lawer mwy gan AONTACHT fel bardd caeth.

Mae cerddi IANWS yn archwilio'r bont rhwng bywyd go iawn a byd technoleg, ac mae'n gasgliad aeddfed a chyfoes. Aiff â ni i gyfeiriadau annisgwyl; hola yn y gerdd 'Cyfrinair mewn caffi', 'Onid dyma'r archeb fwyaf afiach ohonynt oll?' wrth i rywun ofyn am y cyfrinair ar gyfer y wi-fi. Mae'n mynd i gyfeiriadau tywyllach hefyd wrth sôn am ddylanwad andwyol y cyfryngau cymdeithasol ar fachgen ifanc, at yr holl ddata personol sy'n cael ei gasglu, ac at ferch sy'n cerdded adref gyda'r nos ar ei phen ei hun, 'un bawd yn anwesu copaon pitw ei goriad', cyn iddi ffonio ei mam er mwyn teimlo'n ddiogel. Mae pob cerdd yn y casgliad hwn yn haeddu ei lle ac yn cynnig sylwebaeth graff ac amserol ar gymdeithas heddiw. Rydym yn gwbl gytûn bod cerddi IANWS yn deilwng o'r gadair eleni.

1af – IANWS; 2il – AONTACHT; 3ydd - ŴYR